

Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith:

Canllaw ymarferol

(Cymru a Lloegr)

Llofnodwyr y Protocol Marwolaeth yn Gysylltiedig â Gwaith

 <p>NPCC National Police Chiefs' Council</p>	<p>Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) - mae'r NPCC yn dod ag arbenigedd a phrofiad prif swyddogion yr heddlu'r Deyrnas Unedig ynghyd i fforwm proffesiynol i helpu darparu plismona effeithiol. Marwolaethau cysylltiedig â'r gwaith - bydd yr heddlu yn cael y flaenoriaeth ar gyfer yr ymchwiliad nes bydd unrhyw amheuaeth o drosedd yn gysylltiedig â llofruddiaeth wedi ei diystyru. Ym mhob achos, bydd yr heddlu yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau ymchwilio a gorfodi.</p>
	<p>Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) - Mae gan y BTP gyfrifoldeb dros ymchwilio i bob marwolaeth ar y seilwaith Rheilffyrdd a ble fo'n briodol bydd yn cyflwyno ffeiliau i'r CPS i ystyried cyhuddiadau troseddol ar gyfer troseddau llofruddiaeth, Dynladdiad a Dynladdiad Corfforaethol. Mae'r BTP yn gweithio'n agos gyda phartneriaid megis y Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR) a'r Gangen Ymchwilio i Ddamweiniâu Rheilffyrdd (RAIB) i sefydlu uchafiaeth dros ddigwyddiadau ac i sicrhau yr ymchwilir i faterion perthnasol.</p>
	<p>Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) - Yng Nghymru a Lloegr, yr Awdurdodau Tân ac Achub sy'n gyfrifol am erlyn pob cyhuddiad troseddol o ganlyniad i farwolaethau'n gysylltiedig â'r gwaith, heblaw am achosion ble bydd yr unig gyhuddiadau yn rhai dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith acati Dim ond dan amgylchiadau eithriadol fydd y CPS yn erlyn yr achosion hynny.</p>
	<p>Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS) - Y CPS yw'r prif awdurdod erlyn ar gyfer Cymru a Lloegr ac mae'n gyfrifol am erlyn pob cyhuddiad troseddol o ganlyniad i farwolaethau'n gysylltiedig â'r gwaith, heblaw am achosion ble bydd yr unig gyhuddiadau yn rhai dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith acati Dim ond dan amgylchiadau eithriadol fydd y CPS yn erlyn yr achosion hynny.</p>
	<p>Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) - Y CQC yw'r rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol yn Lloegr. Rydym yn rheoleiddio darpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan y rhai sydd wedi cofrestru gyda'r CQC ac yn erlyn darparwyr nad ydynt wedi cofrestru.</p>
	<p>Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) - AGGCC yw'r arolygiaeth a rheolydd annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn rheoleiddio gofal plant a darparwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gydag AGGCC ac yn cymryd camau gorfodi yn erbyn darparwyr nad ydynt wedi cofrestru.</p>
	<p>Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) - Mae'r HSE yn gorfodi'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 mewn amrediad o sectorau, yn cynnwys gweithgynhyrchu cyffredinol, adeiladu, diogelwch nwy domestig, amaeth, gwasanaethau cyhoeddus a mwyngloddiau, peryglon atraeth mawr (yn cynnwys mwyngloddiau, ffrwydradau, asiantau biolegol, gweithgynhyrchu cemegol a phetrocemegol) a pheryglon atraeth mawr (yn cynnwys gosodiadau olew a nwy).</p>
	<p>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) - HIW yw'r arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Yn y sector gofal iechyd annibynnol, mae HIW yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd sydd wedi cofrestru ac yn cymryd camau gorfodi yn erbyn darparwyr nad ydynt wedi cofrestru.</p>
	<p>Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) - Awdurdodau Lleol yn Lloegr sy'n gorfodi'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 sy'n cwmpasu ystod o weithgareddau gwaith a gweithfannau sydd â gwahanol lefelau o risg iechyd a diogelwch mewn ystod o sectorau, yn cynnwys manwerthu, swyddfeydd, warysau cyfanwerthu / manwerthu, lletygarnwch a hamdden (yn cynnwys gwestyau, safleoedd gwersylla, bwytai, clybiau nos, sinemâu, clybiau cymdeithasol, cyfleusterau chwaraeon, caeau ras, llogi cychod plaser, amgueddfeydd, theatrau, orielau celf), llefydd addoli, ymgymerydd, gofal anifeiliaid, gwasanaethau therapiwtig a harddwch, cartrefi gofal a gofal plant meithrin preifat.</p>
	<p>Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) - Mae Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) yn gyfrifol am reoleiddio a gorfodi safonau diogelwch yn yr holl sectorau llongau. Mae'r Asiantaeth yn gweithio gyda llongau'r Deyrnas Unedig unrhyw le yn y byd a llongau sydd wedi eu cofrestru dramor tra byddant o fewn dyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae'r MCA yn erlyn ar ran yr ysgrifennydd gwladol dros Ddrafnidiaeth</p>
	<p>Adran Dyfeisiau Meddygol yr MHRA - Yr MHRA yw awdurdod rheoleiddio'r Deyrnas Unedig ar gyfer meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol. Mae'r Adran Dyfeisiau yn ymchwilio i bob digwyddiad a adroddir yn ymwneud â dyfeisiau meddygol a ddefnyddir mewn ysbytai, lleoliadau gofal sylfaenol a lleoliadau gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r HSE, yr Heddlu a Chwrneriaid mewn achosion yn ymwneud â marwolaethau cleifion, fel fo'n briodol.</p>
	<p>Y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) - Mae'r ONR yn gyfrifol am reoleiddio iechyd a diogelwch ar safleoedd Niwclear Prydain Fawr, safleoedd Amddiffyn Awdurdodedig, safleoedd Llongau Rhyfel Niwclear, a Gwaith Adeiladu Niwclear Newydd. Mae'r ONR yn gyfrifol am ymchwilio i Farwolaethau Cysylltiedig â Gwaith a allai ddigwydd ar y safleoedd hynny.</p>
	<p>Swyddfa'r Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) - Yr ORR yw'r rheolydd diogelwch ac economaidd annibynnol ar gyfer rheilffyrdd Prydain. Rydym yn rheoleiddio iechyd a diogelwch ar gyfer rhwydwaith y prif linellau rheilffordd ym Mhrydain, yn ogystal ag Underground Llundain, rheilffyrdd ysgafn, tramiau a'r sector treftadaeth. Fel Monitor y Prifffyrdd rydym yn gyfrifol am fonitro rheolaeth Highways England o'r rhwydwaith ffyrdd strategol; y traffyrdd a'r prif ffyrdd 'A' yn Lloegr.</p>
	<p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gorfodi'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 yn yr un amrediad o sectorau ag yn Lloegr (gweler Cymdeithas Llywodraeth Leol am ragor o fanylion).</p>

Rhagair

Mae'r Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith yn disgwyl ymchwiliad ar y cyd o farwolaethau yn y gweithle. Diben y Canllaw ymarferol hwn yw cynorthwyo'r heddlu, awdurdodau gorfodi ac erlynyddion yn yr ymchwiliad ar y cyd a ble fo'n berthnasol, i erlyn achosion parthed marwolaethau yn y gweithle. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen *Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith: Protocol ar gyfer cydgysylltu* sy'n sail i graidd y Canllaw ymarferol. Nid yw'r Canllaw ymarferol hwn yn orfodol, ond mae'n rhoi arweiniad ymarferol ar egwyddorion cydgysylltu ac ymchwilio ar y cyd a eiriolir gan y Protocol.

Nid yw'r canllaw yn ddogfen hyfforddi. Mae wedi ei pharatoi yn seiliedig ar y dybiaeth bod y rhai sy'n gyfrifol am ymchwilio i faterion mor ddifrifol a thrychinebus, o ba bynnag sefydliad, yn gymwys i wneud hynny. Mae'n darparu ymagwedd syml i ymchwiliad ar y cyd o farwolaethau o fewn y gweithle. Mae'r canllaw, a'r protocol, yn hyrwyddo cydgysylltu gyda chydweithwyr o awdurdodau gorfodi eraill, ac yn eirioli na ddylid gadael cydgysylltu o'r fath i hap a damwain nac i ddoethineb yr unigolion dan sylw.

Mae'r canllaw hefyd yn darparu amserlen seiliedig ar ddigwyddiadau gyda materion cyswllt sy'n berthnasol i bob digwyddiad. Mae'r Atodiadau yn cynnwys rhestrau gwirio o gamau i'w cymryd gan y swyddog cyntaf i gyrraedd, y swyddog goruchwylio a'r uwch swyddog ymchwilio (SIO).

Wrth baratoi'r Canllaw ymarferol, talwyd sylw i'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar bob ymchwiliad troseddol. Mae hefyd yn ystyried y canllaw penodol a ddarparwyd i'r Heddlu o lawlyfrau ACPO, yn cynnwys y rhai yn ymwneud â dynladdiad, marwolaethau ar y ffordd a'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Talwyd sylw cyfartal hefyd i bolisiau gweithredu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a adlewyrchir yn y canllaw a gyhoeddwyd i asiantaethau awdurdodau lleol eraill. Mae'r canllaw'n berthnasol i unrhyw farwolaeth yn gysylltiedig â'r gwaith yn cynnwys marwolaethau o fewn y sefydliadau llofnodol.

Dylai swyddogion yr heddlu fod yn ymwybodol yn ogystal â chynnal ymchwiliad troseddol i ddiben pennu os dylid cyhuddo rhywun (neu gwmni/sefydliad) gyda throsedd droseddol ddifrifol (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch), mae gan yr awdurdod gorfodi perthnasol¹ gyfrifoldeb i sicrhau bod deiliaid dyletswydd (a allai hefyd fod yn rhai a amheuir) yn cymwys camau ar unwaith i ddelio gyda risgiau difrifol, ac i hyrwyddo a chyflawni cydymffurfiad â'r gyfraith.

1 Golyga awdurdod gorfodi perthnasol y rheolydd iechyd a diogelwch sy'n gyfrifol am y gweithgaredd neu weithle dan sylw, gan gynnwys yr HSE, ONR, ORR, CQC, AGGCC, HIW, Awdurdodau Lleol, MCA a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Cyflwyniad

Mae'r *Canllaw ymarferol* hwn yn cychwyn gyda thudalen gynnwys, sy'n ceisio crynhoi'r Protocol ar un dudalen. Mae hyn yn caniatáu i ymchwilyr ystyried eu gweithredoedd o fewn cyd-destun y Protocol, ac i droi at adran berthnasol y canllaw. Mae'r atodiadau i'r canllaw hwn yn rhestru camau i'w cymryd gan y swyddog cyntaf i gyrraedd, y swyddog goruchwyllo a'r uwch swyddog ymchwilio (SIO).

Cyhoeddwyd y canllaw am y tro cyntaf ar wefan yr HSE fel 'Canllaw Ymchwilyr' ym Mawrth 2004 a'i ddiweddarau ym Medi 2011 a Mai 2012. Fe'i hadolygwyd gan y Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol ar y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith (NLC) yn 2014, ei ailenwi yn 'Canllaw Ymarferol' a'i gyhoeddi yn Chwefror 2015. Bwriad y canllaw hwn yw bod yn ddogfen fyw, hynny yw, gellir ei diweddarau a'i hadolygu gan yr NLC fel fo angen.

Cynnwys y Canllaw Ymarferol

Toriad	Teitl	Tudalen
1	Pennu os yw digwyddiad yn Farwolaeth Gysylltiedig â Gwaith?	6
2	Gweithredu Cychwynnol	7
3	Rheoli'r Ymchwiliad	8
4	Gwneud Penderfyniadau	11
5	Datgelu Deunydd	13
6	Ymholiadau Arbennig	14
7	Cyngor cyn Cyhuddo	15
8	Penderfynu Erlyn	16
9	Yr Erlyniad	18
10	Crwner EM	19
11	Cydgysylltu Cenedlaethol	22
12	Cydgysylltu Lleol	22
	Atodiad 1: Dyletswyddau'r swyddog cyntaf	24
	Atodiad 2: Dyletswyddau swyddog goruchwyliol yr heddlu	28
	Atodiad 3: Dyletswyddau'r uwch swyddog ymchwilio (SIO)	30
	Atodiad 4: Ystyriaethau arbennig	32
	Atodiad 5: Ble mae gan yr heddlu uchafiaeth	33

1 Pennu os yw digwyddiad yn Farwolaeth gysylltiedig â gwaith?

Mae marwolaeth gysylltiedig â gwaith yn farwolaeth yn deillio o ddigwyddiad sy'n codi o waith neu sy'n gysylltiedig â gwaith. Hefyd mae'r protocol a chanllaw cysylltiedig yn berthnasol i achosion ble mae'r dioddefwr yn dioddef anafiadau sydd mor ddifrifol bod awgrym eglur, yn ôl barn feddygol, bod marwolaeth yn debygol.

Gall sefydlu a yw marwolaeth yn gysylltiedig â gwaith fod yn anodd. Ar dderbyn hysbysiad, dylai'r awdurdodau gorfodi perthnasol gydgysylltu a chytuno ar a yw digwyddiad yn gysylltiedig â gwaith. Rhaid ystyried pob digwyddiad ar ei rinweddau ei hun, na fydd yn gwbl amlwg ar unwaith o bosibl, ac a fydd felly angen ymholiadau cychwynnol i'w sefydlu.

Bydd awdurdodau gorfodi hefyd yn cael eu tywys gan eu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau mewnol eu hunain wrth bennu a ddylid ystyried marwolaeth i fod yn gysylltiedig â'r gwaith. Dylid gwneud penderfyniad heb oedi. Rhaid i safle'r digwyddiad gael ei ddiogelu nes y gwneir penderfyniad.

Sefydlu a yw marwolaeth yn gysylltiedig â gwaith

Gall y cwestiynau canlynol gynorthwyo wrth bennu os yw marwolaeth yn gysylltiedig â gwaith:

A oes, neu a fuodd yna weithgaredd gwaith neu ymgymeriad cyfredol ar adeg a lleoliad y digwyddiad?

A oedd yr ymadawedig / sawl sydd wedi ei anafu yn gyflogai neu'n berson hunangyflogedig oedd yn gweithio ar adeg y digwyddiad?

A oedd yr ymadawedig / sawl sydd wedi ei anafu yn aelod o'r cyhoedd a gafodd ei anafu o ganlyniad i weithgaredd gwaith?

Yn achos eiddo domestig neu debyg, a gafwyd unrhyw waith cynnal a chadw neu ailwampio diweddar e.e. gwaith yn gysylltiedig â gosodiadau neu offer nwy neu drydanol?

Gall enghreifftiau o ddigwyddiadau cysylltiedig â gwaith nad ydynt yn amlwg ar unwaith gynnwys: digwyddiadau nwy neu drydan mewn llety a rhentir; digwyddiadau damwain ffordd; digwyddiadau mewn carchardai a chwmp adeiladau a strwythurau eraill.

Diffiniadau

Golyga gwaith: gwaith a gyflawnir gan gyflogai neu unigolyn hunangyflogedig.

Golyga ymgymeriad: menter neu fusnes, p'un a'i cyflawnir am elw neu beidio.

Mae cyflogai yn: unigolyn sy'n gweithio dan gontract cyflogaeth, neu brentisiaeth, y bydd ei amodau wedi eu sefydlu'n ffurfiol ar lafar neu'n ysgrifenedig, neu gall y berthynas fod yn anffurfiol neu ymhlyg.

Mae unigolion hunangyflogedig yn: unigolion sy'n gweithio am elw neu wobr, ond nid dan gontract cyflogaeth. Gallant gyflogi pobl eraill.

2 Gweithredu Cychwynnol

Gan amlaf, y cyntaf i gyrraedd fydd swyddog yr heddlu, ond mae'n bosibl na fydd hyn yn wir bob tro. O ganlyniad, bydd disgwyl i awdurdodau gorfodi eraill perthnasol sy'n cyrraedd o flaen llaw i'r heddlu gymryd camau priodol ble mae ganddynt y pŵer i wneud hynny.

I gynorthwyo'r swyddog cyntaf yn y fan, mae'r rhestrau gwirio canlynol wedi eu cynnwys yn Atodiad 1:

Dyletswyddau'r swyddog cyntaf – Pob Digwyddiad.

Dyletswyddau atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Nwy Domestig.

Dyletswyddau atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Marwolaeth Ffordd.

Dyletswyddau atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Rheilffordd.

Dyletswyddau atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Morol.

Ym mhob achos o farwolaeth a amheuir i fod yn gysylltiedig â gwaith, dylai swyddog yr heddlu o radd oruchwylio fynychu'r lleoliad er mwyn asesu'r sefyllfa, adolygu'r camau a gymerwyd hyd yn hyn ac i dderbyn cyfrifoldeb am yr archwiliad. I gynorthwyo'r swyddog goruchwyliol sy'n bresennol, darperir y rhestrau gwirio canlynol yn atodiadau 2 a 3.

Atodiad 2: Dyletswyddau swyddog goruchwyliol yr heddlu

Dyletswyddau atodol swyddog goruchwyliol yr heddlu –
Digwyddiadau Rheilffordd

Dyletswyddau atodol swyddog goruchwyliol yr heddlu –
Digwyddiadau Tân

Dyletswyddau ychwanegol swyddog polisi goruchwylio –
Digwyddiadau'n ymwneud â Dyfais Feddygol

Atodiad 3: Dyletswyddau'r uwch swyddog ymchwilio (SIO)

Dylai'r rhestrau gwirio yn Atodiad 1 gynorthwyo'r swyddog cyntaf i gyrraedd i gymryd y camau priodol. Fodd bynnag, camau allweddol i'w nodi ar gyrraedd y lleoliad yw i:

- ddiogelu lleoliad y digwyddiad;
- gyflawni asesiad risg cychwynnol i sicrhau nad yw'r rhai sy'n ymchwilio i'r digwyddiad wedi eu hamlygu i risgiau iechyd a diogelwch arwyddocaol; a
- gysylltu â'r awdurdod gorfodi perthnasol.

Ar gyrraedd y lleoliad, efallai y bydd angen cwestiynu tystion posibl, a hyd yn oed rhai a amheuir, gan yr awdurdod gorfodi perthnasol i sefydlu a oes angen cymryd camau ar unwaith i ddelio ag unrhyw risg weddilliol allai fodoli yn dilyn y digwyddiad. Gall cwestiynu o'r fath barhau hyd at gamau cynnar ymchwiliad ar y cyd i nodi achosion sylfaenol systemig.

3 Rheoli'r ymchwiliad

Ble bynnag y bydd gan fwy nag un awdurdod gorfodi ddiddordeb mewn marwolaeth, dylai'r ymchwiliad i iechyd a diogelwch a/neu droseddau eraill gychwyn ar unwaith, a chael eu cyflawni ochr yn ochr â'r ymchwiliad o ddynladdiad. Dylid cynnal ar y cyd, gydag un o'r partiön yn darparu arweiniad, h.y. yn tybio uchafiaeth. Hefyd efallai y bydd ymchwiliad yn galw am gydgyssylltu ag unrhyw awdurdod gorfodi arall a allai fod â diddordeb, yn ogystal â Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS).

Er y bydd un parti yn tybio uchafiaeth, dylai partiön eraill i ymchwiliad ar y cyd fod yn cydweithio a gweithio ochr yn ochr, gan symud ymlaen â'u hymchwiliad eu hunain cyn gynted â phosibl. Ni ddylai cytuno ar uchafiaeth oedi ymchwiliadau o bartiön unigol i ymchwiliad ar y cyd. Yn ystod cam cynnar ymchwiliad, dylai'r heddlu ac awdurdodau perthnasol eraill gytuno:

(a) pwy fydd yn tybio/cadw uchafiaeth;

(b) strategaeth ar gyfer rheoli'r ymchwiliad ar y cyd wrth symud ymlaen. Dylai hyn gynnwys adolygiadau ar y cyd rheolaidd o gynnydd yr ymchwiliad;

(c) llwybrau ymholi, naill ai ar y cyd os yn berthnasol, neu'r rhai i'w hymchwilio ar wahân gan y partiön sy'n rhan o'r ymchwiliad ar y cyd;

(d) pa adnoddau fydd eu hangen a sut i'w defnyddio/rhannu. Dylai hyn gynnwys defnyddio pwerau penodol gan awdurdod gorfodi (e.e. adran 20 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 neu adrannau 62 i 65 y Ddeddf Gofal Iechyd a Chymdeithasol 2008) i sicrhau bod eu defnydd yn angenrheidiol, cyfiawn a chyfreithlon h.y. defnyddir grymoedd ar gyfer y dibenion y'i darparwyd ar ei chyfer yn unig;

(e) sut ddylid cofnodi, storio, datgelu a rhannu deunydd perthnasol a gesglir neu a gynhyrchir yn ystod yr ymchwiliad rhwng y partiön. Fel arfer byddai'n briodol i'r partiön i'r ymchwiliad rannu deunydd tystiolaethol gyda'i gilydd, neu ganiatáu mynediad ato, wrth i'r ymchwiliad symud ymlaen;

(f) pa gyngor arbenigol a medrus sydd angen; ar gyfer pa linellau ymholiad hy. dynladdiad esgeulustod dybryd, dynladdiad corfforaethol neu doriadau iechyd a diogelwch; a sut i'w comisiynu ac ariannu. Y nod yw sicrhau, ble fo'n bosibl, y bydd arbenigwr yn edrych ar y materion parthed yr holl droseddau posibl ar yr un pryd;

(g) sut i gydlynu archwiliad fforensig o'r deunydd perthnasol e.e. eitemau corfforol, tystiolaeth DNA, deunydd digidol;

(h) strategaeth cyfweld sy'n sefydlu pwy yw'r tystion a'r rhai o dan amheuaeth bosibl, gan gynnwys sut, pryd a ble i'w cyfweld. Dylid cynllunio a chynnal cyfweiliadau gyda thystion a rhai dan amheuaeth ar y cyd, gan drafod yr holl droseddau honedig ble fo'n bosibl;

(i) sut, ac i ba raddau, y dylid ymchwilio i fethiannau corfforaethol neu sefydliadol, a phryd a sut ddylid gofyn am gyngor gan y CPS. Fel arfer bydd yn briodol i'r ymchwiliad ystyried methiannau unigol a sefydliadol ochr yn ochr;

(j) strategaeth ar gyfer hysbysu teulu/perthynas agosaf yr ymadawedig a thystion o ddatblygiadau yn yr ymchwiliad. Yn gyntaf, yr heddlu fydd yn darparu'r cydgysylltu angenrheidiol. Os bydd uchafiaeth yn cael ei basio i awdurdod gorfodi arall, dylid cynnal trafodaeth a chytuno ar y ffordd orau i gynnal cyfathrebu gyda theulu/perthynas agosaf yr ymadawedig a thystion.

(k) cydgysylltu gyda Chrwner EM, yn cynnwys cyflwyno adroddiadau ffeithiol i'r crwner, datgelu deunydd perthnasol, a sut y dylid mynd ar drywydd unrhyw gais i'r crwner ohirio ei ymchwiliad. Fel arfer ar gyfer ymchwiliad o unrhyw hyd, bydd yn briodol i wneud cais i ohirio ymchwiliad y crwner;

(l) strategaeth gyfryngau i gymryd i ystyriaeth sensitifrwydd teulu/perthynas agosaf yr ymadawedig a'r rheini a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad, y negeseuon y mae'r holl bartion sy'n ymchwilio i'r digwyddiad yn dymuno eu cyfleu, ac i hyrwyddo adrodd cyson. Fel arfer bydd yn briodol i ymgynghori gyda'r holl bartion i'r ymchwiliad parthed amseriad a chynnwys unrhyw weithgaredd cyfryngau.

Mewn ymchwiliadau ar raddfa fawr, gallai fod yn fuddiol i lunio grŵp cydgysylltu strategol i sicrhau cyfathrebu rhyng-sefydliadol effeithiol, ac i rannu gwybodaeth berthnasol, arfer da a phrofiadau.

Rhannu Gwybodaeth

Fel arfer ni ddylid fod unrhyw rwystrau cyfreithiol i rannu gwybodaeth berthnasol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall fod yn briodol i sefydlu mewn cytundeb ysgrifenedig pa wybodaeth a rennir, pryd a sut fydd yn cael ei rhannu a'r sail gyfreithiol dros wneud hynny.

Monitro / Adolygu Cynnydd yr Ymchwiliad

Trwy gydol yr ymchwiliad ar y cyd, dylai'r heddlu ac awdurdod gorfodi arall perthnasol gadw cynnydd yr ymchwiliad dan adolygiad. Dylid cytuno ar gerrig milltir a'u monitro, a chofnodi penderfyniadau polisi a phenderfyniadau allweddol yn y Logiau Penderfyniadau Allweddol (os y'u defnyddir) gan bob awdurdod. Er y bydd pob ymchwiliad yn cael ei reoli'n wahanol, awgrymir mewn achosion ble mae uchafiaeth yn dal yn nwylo'r heddlu 3 mis wedi digwyddiad, y dylai'r heddlu a'r awdurdod gorfodi perthnasol gyflawni adolygiad cynhwysfawr o'r ymchwiliad.

Dylai'r adolygiad gael ei gyflawni ar y cyd a chynnwys yr heddlu, CPS ac awdurdod gorfodi perthnasol a dylai:

- asesu cynnydd;
- adolygu'r dystiolaeth a gaffaelwyd hyd yn hyn a cheisio cyngor gan y CPS os nad ydynt eisoes wedi ei gael, ar p'un a ddylai'r ymchwiliad i ddynladdiad esgeulus⁽¹⁾ posibl barhau;
- os yw'r heddlu yn mynd i gadw uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad, cytuno (oni bai fod yna reswm da) fod y CPS yn gofyn am ohirio ymchwiliad y crwner⁽²⁾, ac i ohirio unrhyw gwest cysylltiedig; a
- ble nad oes tystiolaeth o drosedd dynladdiad esgeulus, cytuno ar sut a phryd y dylid trosglwyddo uchafiaeth i'r awdurdod gorfodi perthnasol.

Dylid cynnal adolygiadau rhwng partion mewn ymchwiliad ar y cyd yn rheolaidd i sicrhau y gellir cwblhau'r ymchwiliad ac unrhyw erlyniad dilynol mor fuan â phosibl. Argymhellir, ble fo angen, y dylid cyflawni adolygiadau allweddol un

flwyddyn a dwy flynedd wedi dyddiad y farwolaeth. Y prif nod yw sicrhau bod ymchwiliadau yn cael eu cwblhau, ac y gwneid unrhyw benderfyniad i erlyn, mor fuan â phosibl. Dylai pob parti geisio sicrhau y dygir unrhyw erlyniad cyn gynted â phosibl ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol yn ddim hwyrach na 3 mlynedd wedi'r farwolaeth.

Mewn achosion ble mae'r CQC yn ymchwilio i dramgwyddau troseddol, efallai y bydd cyfnodau byrrach o amser yn weithredol oherwydd cyfyngiadau amser statudol ar droseddau penodol. Dylai partion mewn ymchwiliad ar y cyd drafod a chytuno ar hyn.

Cynyddu

Mae'n bwysig pan fydd ymchwiliadau wedi oedi fod yna brosesau clir ar waith i sicrhau y gellir cynyddu materion sy'n oedi ymchwiliadau yn brydlon i lefel uwch. Dylid darparu enwau a manylion cyswllt yr unigolion uwch, ac un lefel i fyny o hyn, h.y. dwy lefel o uchafiaeth uwchben prif arolygydd / uwch swyddog ymchwilio a'i rannu gan yr heddlu, CPS ac awdurdod gorfodi perthnasol.

Oedi

Dylai ymchwilwyr fod yn ymwybodol ar bob adeg o, ac osgoi unrhyw oedi yng nghynnydd yr ymchwiliad. Dylai dilyn egwyddorion y protocol a'r canllaw hwn gynorthwyo i osgoi unrhyw oedi diangen.

-
- (1) Golyga Dynladdiad Esgeulus 'Tramgwydd troseddol difrifol gwahanol i drosedd iechyd a diogelwch'.
 - (2) Pwerau crwneriaid i ohirio ymchwilio dan Atodlen 1 (Adran 11) y Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009
- 1(1) Mae'n rhaid i Uwch-grwner atal ymchwiliad dros dro o dan y Rhan hon o'r Ddeddf hon i farwolaeth person yn yr achosion dilynol.
- (2) Yr achos cyntaf yw lle mae awdurdod erlyn yn gofyn i'r crwner atal yr ymchwiliad dros dro ar y sail y gallai person gael ei gyhuddo ag –
 - (a) trosedd dynladdiad yn cynnwys marwolaeth yr ymadawedig, neu
 - (b) trosedd (heblaw am drosedd gwasanaeth) yr honnir ei fod yn drosedd cysylltiedig.

4 Gwneud Penderfyniadau

Dynladdiad Esgeulustod Dybryd (GNM) a Dynladdiad Corfforaethol (CM)

Ble bynnag y ceir amheuaeth y gallai dynladdiad esgeulus fod wedi achosi'r farwolaeth, bydd yr heddlu yn tybio uchafiaeth dros ymchwiliad ac yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau gorfodi perthnasol eraill.

Er mwyn i ddynladdiad esgeulustod dybryd (GNM) a dynladdiad corfforaethol (CM) gael eu hystyried gan y CPS, rhaid i ymddygiad y rhai a amheuir i fod wedi torri'r gyfraith fod yn llawer is na'r disgwyl gan ymarferwr rhesymol. Mae un camgymeriad, hyd yn oed os yw'n ddifrifol, yn annhebygol (er nad yn amhosibl) o fodloni'r maen prawf hwn. Rhaid bod elfen o ddrygioni gwirioneddol yn hytrach na rhywun yn gwneud ei orau annigonol dan amgylchiadau anodd.

Ni ellir crynhoi esgeulustod gan nifer o bobl i olygu i'w hymddygiad gyda'i gilydd syrthio ymhell islaw'r safon ofynnol. Rhaid ystyried pob un o'r rhai a amheuir i fod wedi torri'r gyfraith yn unigol. Cynghorir yr heddlu i gysylltu â'r CPS ar y cyfle cyntaf i sicrhau y gellir ystyried cyhuddiadau dynladdiad corfforaethol neu ddynladdiad esgeulustod dybryd posibl yn brydlon. Mae gan y CPS gyfreithwyr arbenigol i gynorthwyo cydweithwyr yr heddlu nad oes ganddynt o reidrwydd lawer o brofiad o'r drosedd dan sylw yn yr achosion hyn.

Bydd llwyddiant o ran erlyn yr achosion hyn yn ddibynnol ar strategaeth adeiladu achos graddol, gofalus, gan wneud defnydd o adroddiadau o un arbenigwr technegol neu fwy, ac yn aml wedi eu cyflawni mewn cydgysylltiad ag asiantaethau ymchwiliol eraill. Bydd gweithio gyda'r CPS i nodi asiantaethau allweddol eraill ar y camau cyntaf yn allweddol i sicrhau rheolaeth effeithiol o gynnydd achos.

Nodir y prawf cyfreithiol ar gyfer dynladdiad oherwydd esgeulustod dybryd yn R v Adomako (1995 1 Achosion Apêl 171). Mae hwn yn brawf pedwar cam, a'r elfennau allweddol i'w sefydlu yw:

- (i) roedd gan y diffynnydd ddyletswydd gofal tuag at yr ymadawedig; ac
- (ii) fe dramgwyddodd y diffynnydd ar y ddyletswydd gofal honno; ac
- (iii) achosodd y tramgwydd neu fe gyfrannodd yn sylweddol i'r farwolaeth; a
- (iv) dylid nodweddu'r tramgwydd fel esgeulustod dybryd ac felly'n drosedd.

Ar gyfer dynladdiad corfforaethol, mae yna nifer o elfennau i'r drosedd y mae'n rhaid eu profi:

- (a) mae'r diffynnydd yn sefydliad cymwys;
- (b) fe achosodd y sefydliad farwolaeth rhywun;
- (c) roedd gan y sefydliad ddyletswydd gofal tuag at yr ymadawedig; ac
- (d) cafwyd tramgwydd dybryd o'r ddyletswydd honno oedd yn bell islaw'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan y sefydliad dan yr amgylchiadau.

Yn ogystal, ar gyfer dynladdiad corfforaethol, rhaid i ymddygiad (sut yr oedd gweithgareddau'r cwmni wedi eu rheoli neu drefnu) uwch reolwyr fod yn rhan sylweddol o'r methiant corfforaethol. Uwch reolwyr yw'r rhaid hynny sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch sut mae'r cyfan neu ran fawr o ymddygiad y cwmni wedi ei reoli neu drefnu.

Wrth benderfynu a fu tordyletswydd dybryd, rhaid i'r rheithgor ystyried a dramgwyddwyd ar unrhyw ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, ac os felly i ystyried:

- (i) difrifoldeb y tramgwydd; a
- (ii) faint o risg o farwolaeth oedd hyn yn cyflwyno.

Felly mae'r mesur ar gyfer profi GNM ac/neu CM wedi ei osod yn uchel iawn ac, os ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad y daw'n amlwg na fydd yn debygol y bydd tystiolaeth ddigonol i brofi trosedd o'r fath, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol dybio uchafiaeth cyn gynted â phosibl.

Bydd y CPS yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod gorfodi o ran tybio uchafiaeth, i sicrhau mewn achosion ble na phenderfynwyd mynd ar drywydd erlyniad parthed dynladdiad esgeulus, y cyfathrebir hyn yn briodol.

Newid Uchafiaeth a Throsglwyddo Ymchwiliad

Dylai'r ddau barti gytuno'n ysgrifenedig i newid uchafiaeth yn ysgrifenedig trwy gwblhau dogfen drosglwyddo. Dylai'r broses drosglwyddo ffurfiol gynnwys trosglwyddo deunydd ymchwilio perthnasol (datganiadau, lluniau, eitemau corfforol, ac ati) nad ydynt eisoes wedi eu trosglwyddo i'r awdurdod sy'n tybio uchafiaeth. Rhaid hefyd datgelu deunydd perthnasol a gedwir gan yr heddlu, naill ai at ddibenion Imiwnedd Lles y Cyhoedd (PII) neu reswm arall, e.e. storio diogel, cofnodion llyfr nodiadau, i'r awdurdod sy'n tybio uchafiaeth i sicrhau y gallant gydymffurfio gyda'r Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA).

Gall trosglwyddiad ddigwydd yn gynnar iawn yn y broses ymchwilio ac, yn achos rhai digwyddiadau, gall ddigwydd wedi i'r heddlu gyflawni ymholiadau cychwynnol yn unig. Mae dogfen drosglwyddo wedi ei chynhyrchu gan yr NLC i'w defnyddio mewn amgylchiadau o'r fath.

Pan fydd adolygiad tystiolaethol parthed trosedd dynladdiad esgeulus wedi ei hysbysu gan gyngor cyfreithiol gan y CPS, dylid cyflawni'r broses mor gyfleus â phosibl. Ble na fodlonir y prawf tystiolaethol, dylid trosglwyddo uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad cyn gynted â phosibl.

Pan fydd gan awdurdod gorfodi ar wahân i'r heddlu uchafiaeth ac y canfyddir gwybodaeth newydd sy'n rhoi achos i ailystyried a gyflawnwyd trosedd dynladdiad esgeulus, dylid rhannu'r wybodaeth gyda'r heddlu cyn gynted â phosibl. Dylai'r heddlu benderfynu a ddylai ail-dybio uchafiaeth, gan ymgynghori â'r CPS os oes angen. Os bydd yr heddlu'n ail-dybio uchafiaeth, rhaid paratoi dogfen drosglwyddo bellach gan yr awdurdod gorfodi sy'n pasio'r uchafiaeth yn ôl. Rhaid i'r trosglwyddiad gynnwys deunydd perthnasol nad yw eisoes ym meddiant yr heddlu.

Bydd yna hefyd achlysuron prin ble, o ganlyniad i gwest y crwner, adolygiad barnwrol neu achosion cyfreithiol eraill, y gall fod angen ystyried y dystiolaeth a ffeithiau amgylchynol ymhellach. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd yr heddlu, yr awdurdod gorfodi perthnasol gydag uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad a'r CPS yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau penderfyniad cynnar. Hefyd, efallai y bydd angen ymchwiliad pellach.

5 Datgelu deunydd

Er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA), Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref (CoP) dan Ran II y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, a Chanllawiau'r Atwrnai Cyffredinol ar Ddatgelu, dylai awdurdodau gorfodi gadw a chofnodi'r holl ddeunydd perthnasol a gesglir neu a gynhrychir yn ystod yr ymchwiliad.

Dylai rheolaeth a chydgysylltu effeithiol sicrhau bod awdurdodau gorfodi sy'n ymchwilio digwyddiad ar y cyd gael mynediad at yr holl ddeunydd perthnasol wrth iddo gael ei gasglu yn ystod yr ymchwiliad. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda systemau rheolaeth deunydd a chydgysylltu effeithiol, efallai y bydd yna ddeunydd atodol, wedi ei ddefnyddio a heb ei ddefnyddio, nad yw wedi ei ddatgelu a'i rannu rhwng awdurdodau, naill ai yn ystod yr ymchwiliad neu ar drosglwyddo ble mae uchafiaeth ar gyfer ymchwiliad yn newid.

Felly dylai awdurdodau gorfodi sydd wedi ymchwilio i ddigwyddiad, waeth beth oedd y lefel ymgysylltu, sicrhau bod yr holl ddeunydd wedi ei ddatgelu i awdurdod arall ar dderbyn cais o'r fath. Ar ddatgelu a/neu dderbyn, dylai'r awdurdod derbyn gofnodi'r deunydd a'i gategoreiddio yn unol â hynny.

Dylai ymgysylltu effeithiol rhwng awdurdodau gorfodi sicrhau y dilynir y gweithdrefnau gofynnol ble ceir cais i'r llys i ddal deunydd sensitif yn ôl na fyddai fel arall yn cael ei ddatgelu ar sail risg o niwed difrifol i les y cyhoedd pwysig.

Mewn ymchwiliadau mawr a chymhleth sy'n arwain at erlyniad, dylid amlinellu'r ymagwedd i ddatgeliad mewn Dogfen Rheoli Datgeliad gan yr awdurdod erlyn. Dylai'r ddogfen gynnwys y camau a gymerir i gaffael deunydd ym meddiant awdurdodau gorfodi eraill h.y. deunydd trydydd parti.

6 Ymholiadau Arbennig

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Yn achos rhai digwyddiadau, yn arbennig y rheini sy'n cynnwys marwolaethau lluosog, gall yr HSE, â chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, gyfeirio y cynhelir ymchwiliad cyhoeddus. Fel arall, gall Bwrdd yr HSE awdurdodi'r HSE, neu unrhyw berson arall, i ymchwilio gan gynhyrchu adroddiad arbennig.

O dan y fath amgylchiadau, bydd yr heddlu'n darparu unrhyw gefnogaeth a thystiolaeth angenrheidiol i'r sawl a benodir i gynnal yr ymchwiliad cyhoeddus, neu i gynnal yr ymchwiliad arbennig, yn amodol ar y rheoliadau perthnasol.

Gallai problemau cyfreithiol cymhleth godi pan fydd ymchwiliadau cyhoeddus ac ymchwiliadau neu erlyniadau troseddol cyfochrog. Bydd y llofnodwyr yn anelu at hysbysu cadeiryddion yr ymchwiliad yn gyson ynghylch cynnydd yr ymchwiliad.

Weithiau bydd oedi wrth adrodd am ymchwiliad cyhoeddus er mwyn aros i achosion troseddol ddod i ben, ac ar achlysuron eraill, efallai na fydd y fath oedi oherwydd y bydd o les mawr i'r cyhoedd i gyhoeddi'r adroddiad ac argymhellion yr ymchwiliad cyhoeddus yn gyflym. Yn y naill achos neu'r llall, bydd y llofnodwyr i'r protocol yn cydweithio er mwyn sicrhau y gwneir y penderfyniad i erlyn cyn gynted â phosibl ac y cychwynnir unrhyw achosion troseddol heb oedi.

Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Dan amgylchiadau eithriadol a dim ond ar gais neu gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gall y CQC gynnal adolygiad arbennig neu ymchwiliad yn unol ag Adran 48 y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008.

7 Cyngor cyn cyhuddo

Os oes amheuaeth y gallai dynladdiad esgeulus fod wedi achosi'r farwolaeth, dylid cynnwys y CPS ar y cyfle cyntaf ac, os na dylid ymgynghori â nhw o fewn 3 mis i gychwyn yr ymchwiliad. Ni ddylid cyfyngu trafodaethau gyda'r CPS i'r heddlu, gan gynnwys yr holl awdurdodau gorfodi eraill sy'n rhan o'r ymchwiliad.

Mae Unedau Troseddau Cymhleth (CCU) yn y CPS yn delio gyda'r holl achosion dynladdiad esgeulustod dybryd ar wahân i rai o natur feddygol a'r rhai ble'r amheuir dynladdiad corfforaethol (ac eithrio yn erbyn partneriaethau). Mae Unedau Troseddau Arbennig y CPS yn yr Adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth (SCCTD) yn delio ag achosion dynladdiad meddygol a dynladdiad corfforaethol (yn cynnwys corfforaethau), gan fod achosion o'r fath yn galw am arbenigedd penodol, yn aml ar y cyfle cyntaf.

Bydd ymgysylltu cyfreithwyr yn gynnar o'r CCU neu SC yn cynorthwyo i gynllunio strategaeth achos er mwyn sicrhau bod yr ymchwiliad yn amserol, targedig ac effeithiol. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- Cyngor a chanllaw ar fynd ar drywydd llinellau ymholiad perthnasol.
- Natur unrhyw gyhuddiad dynladdiad (unigol neu gorfforaethol).
- Dethol arbenigwyr, yn cynnwys paratoi cylch gorchwyl manwl ar gyfer yr arbenigwyr hynny.

Ni ddylid cyfyngu trafodaethau rhwng yr heddlu, awdurdodau gorfodi eraill a'r CPS i faterion dynladdiad. Dylent hefyd drafod llinellau ymholiad a throseddau posibl e.e. troseddau iechyd a diogelwch neu amgylcheddol.

Fel y disgrifir yn adran 4 y canllaw hwn, os ar unrhyw gam o'r ymchwiliad y daw'n amlwg nad oes digon o dystiolaeth fod trosedd dynladdiad esgeulus wedi achosi'r farwolaeth, dylid trosglwyddo uchafiaeth yn yr ymchwiliad i'r awdurdod gorfodi perthnasol cyn gynted â phosibl.

8 Y penderfyniad i erlyn

Cymerir y penderfyniad i erlyn unrhyw dramgwydd troseddol difrifol yn deillio o'r farwolaeth gan y CPS heb unrhyw oedi gormodol wedi darparu ffeil lawn gan yr awdurdod ymchwilio. Dylid cyfathrebu unrhyw oedi gormodol wrth wneud penderfyniadau erlyn a'r rhesymau cysylltiedig yn brydlon i'r heddlu a'r awdurdod gorfodi perthnasol. Dylai cydgysylltu effeithiol rhwng y CPS, yr heddlu ac awdurdodau gorfodi eraill sicrhau bod yr holl bartïon yn cael eu diweddarau ar gynnydd achos. Yn ogystal, gall awdurdodau gorfodi gynorthwyo'r CPS yn ei benderfyniad trwy ddarparu cyngor ar ddeddfwriaeth berthnasol arall, codau ymarfer cymeradwy, canllaw a safonau eraill.

Yn ogystal â throedd dynladdiad esgeulus⁽¹⁾, dylai'r CPS hefyd ystyried a yw am erlyn y diffynnydd hwnnw neu unrhyw ddiffynnydd arall am unrhyw droseddau iechyd a diogelwch eraill cysylltiedig. Wrth ystyried troseddau eraill, bydd y CPS yn ymgynghori gyda, ac yn rhoi ystyriaeth lawn i, farn yr awdurdodau gorfodi perthnasol⁽²⁾. I gynorthwyo'r CPS, os oes angen, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol ddarparu cyngor ar droseddau posibl perthnasol i iechyd a diogelwch.

Ar wneud ei benderfyniad, dylai'r CPS ei gyfathrebu i'r heddlu, y crwner a'r awdurdod gorfodi perthnasol, cyn gynted ag ymarferol. Ble nad yw'r CPS yn cynnig erlyniad parthed dynladdiad esgeulus a/neu droseddau eraill, bydd y CPS yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod gorfodi perthnasol, os oes angen, i ddynodi sut a pham fod y CPS wedi dod i'r casgliad hwn. Cyn cyfathrebu penderfyniad yr erlyniad i deulu/perthynas agosaf yr ymadawedig⁽³⁾, dylai'r CPS ymgynghori gyda'r awdurdod gorfodi perthnasol i gytuno ar gynnwys unrhyw gyfathrebiad i sicrhau na achosir unrhyw ragfarn i unrhyw erlyniad yn y dyfodol parthed troseddau eraill ee. troseddau iechyd a diogelwch. Ni ddylid datgelu unrhyw farn a fynegir gan y CPS nac awdurdod gorfodi arall yn ystod yr ymgynghoriad gan unrhyw drydydd parti.

Wrth gyfathrebu'r penderfyniad erlyn i'r rhai mewn profedigaeth, dylai'r CPS esbonio y bydd uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad yn cael ei basio i'r awdurdod gorfodi perthnasol, a allai fynd ar drywydd erlyniad wedi cwblhau eu hymchwiliad. Ar dybio uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol sicrhau y darperir trefniadau cydgysylltu digonol gyda'r rhai mewn profedigaeth.

Ni ddylid gwneud unrhyw benderfyniad erlyn yn gyhoeddus nes bydd y rhai mewn profedigaethau, Swyddfa'r Crwner ac unrhyw ddiffynnyddion posibl wedi eu hysbysu fel fo'n briodol ac yn unol ag unrhyw strategaeth cyfryngau a gytunwyd rhwng y CPS, yr heddlu ac awdurdodau gorfodi perthnasol. Os na fydd erlyniad gan y CPS, dylai cyhoeddiad y cyfryngau gynnwys, ble fo'n berthnasol ac yn briodol, datganiad y bydd uchafiaeth yn yr ymchwiliad yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod gorfodi perthnasol.

-
- (1) Mae rolau a chyfrifoldebau'r CPS, yr heddlu a'r crwneriaid mewn ymchwiliadau sy'n arwain at amheuaeth o drosedd dynladdiad esgeulus wedi eu sefydlu yn y Memorandwm Cydddealltwriaeth rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, y Prif Grwner a Chymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr.
 - (2) Dim ond y CQC all erlyn trosedd o ddiffyg cydymffurfiad â rheoliadau'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014 yn cynnwys methiant i ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel yn arwain at niwed y gellid fod wedi ei osgoi neu risg arwyddocaol o amlygiad i niwed y gellid fod wedi ei osgoi oni bai fod yr Atwrnai Cyffredinol yn darparu cydsyniad ysgrifenedig i unigolyn arall (Adran 90 y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008). Mae'r un cyfyngiadau yn berthnasol i erlyniadau darparwr anghofrestredig (Adran 10 y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008).
 - (3) Mae gan deuluoedd mewn profedigaeth hawl i dderbyn gwasanaethau gan y CPS a sefydlir yn y ddogfen: Gwasanaeth Erlyn y Goron: Gwasanaeth i Deuluoedd mewn Profedigaeth.

Yn dilyn penderfyniad gan y CPS i beidio erlyn parthed trosedd dynladdiad esgeulus ac/neu droseddau perthnasol eraill, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol:

- dybio uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad (gweler y canllaw ar dybio uchafiaeth yn adran 4);
- gwblhau ei ymchwiliad;
- gydgysylltu â'r crwner; a
- phenderfynu a yw am erlyn am drosedd berthnasol cyn gynted â phosibl.

Gallai penderfyniad i beidio erlyn a wneir gan y CPS neu unrhyw awdurdod gorfodi arall fod yn destun hawl dioddefwyr i adolygiad (VRR). Gallai cais o'r fath arwain at newid penderfyniad i beidio cyhuddo. Felly, ble derbyniwyd cais o'r fath gan ddiodefwyr, dylai'r CPS neu awdurdod gorfodi sy'n derbyn gysylltu ar unwaith gyda:

- y parti perthnasol sydd wedi tybio uchafiaeth yn yr ymchwiliad; ac
- unrhyw bartion eraill sy'n ymchwilio ar y cyd;

a'u hysbysu yn unol â hynny. Yn ogystal, dylai awdurdodau gorfodi sydd wedi tybio uchafiaeth mewn ymchwiliad, yn ystod eu gwaith cydgysylltu arferol gyda dioddefwyr, geisio pennu os yw'n debygol y gwneir VRR yn dilyn penderfyniad gan y CPS neu awdurdod gorfodi arall.

9 Yr erlyniad

Yn ogystal â chyhuddiadau dynladdiad esgeulus, gall y CPS benderfynu mynd ar drywydd erlyniad ar gyfer troseddau iechyd a diogelwch neu eraill, er mai dim ond yn achlysurol iawn fydd y CPS yn erlyn troseddau iechyd a diogelwch heb gyhuddiadau eraill(1). Pan fydd hyn yn digwydd, nid oes gan yr awdurdod gorfodi perthnasol unrhyw rôl ffurfiol yn yr erlyniad. Fodd bynnag, dylai'r CPS barhau i gysylltu gyda'r awdurdod gorfodi perthnasol i sicrhau cynhwysiant a chymorth parhaus yn:

- natur a geiriad unrhyw gyhuddiad iechyd a diogelwch neu arall;
- perthynas i faterion sy'n codi yn ystod y treial;
- unrhyw faterion parthed datgelu deunydd (a ddefnyddir ac na ddefnyddir);
- unrhyw gynadleddau achos gyda'r cwmsel;
- paratoi dogfennau allweddol fel crynodebau achos, amlinelliad dadleuon ac ati;
- darparu gwybodaeth i'r rhai mewn profedigaeth a thystion;
- cyhoeddi'r penderfyniad;
- unrhyw benderfyniad parthed cyflawni'r erlyniad, yn benodol, unrhyw benderfyniad i dynnu unrhyw drosedd iechyd a diogelwch yn ôl, derbyn ple euog, neu sail ple;
- darparu gwybodaeth o ran unrhyw gais costau i'w wneud ar ran unrhyw awdurdod gorfodi os ceir euogfarn.

Os yw'r CPS yn erlyn am ddynladdiad esgeulus, ac nad eir ar drywydd troseddau iechyd a diogelwch perthnasol, dylai'r CPS hysbysu'r awdurdod gorfodi perthnasol ar gynnydd yr achos ac unrhyw ganlyniad terfynol.

(1) Dim ond y CQC all erlyn trosedd o ddiffyg cydymffurfiad â rheoliadau'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014 yn cynnwys methiant i ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel yn arwain at niwed y gellid fod wedi ei osgoi neu risg arwyddocaol o amlygiad i niwed y gellid fod wedi ei osgoi oni bai fod yr Atwrnai Cyffredinol yn darparu cydsyniad ysgrifenedig i unigolyn arall (Adran 90 y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008). Mae'r un cyfyngiadau yn berthnasol i droseddau darparwr anghofrestredig (Adran 10 y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008).

10 Crwner EM

Ymchwiliadau Cyfredol

Mewn ymchwiliad i farwolaeth, bydd y crwner yn cael ei hysbysu gan yr heddlu ac/neu awdurdod gorfodi arall, pa bynnag un sy'n uchafu. Os mai'r heddlu sy'n dal i uchafu, bydd yr heddlu neu'r CPS yn hysbysu a diweddarau'r crwner o ran a ddylid cyhuddo rhywun gyda throsedd o ddynladdiad⁽¹⁾.

Os ydynt yn gynwysedig, dylai'r CPS fel arfer ofyn i Grwner EM ohirio ymchwiliad y crwner ac oedi'r cwest. Os ceir cais, rhaid i'r crwner ohirio'r ymchwiliad crwner am o leiaf 28 niwrnod a gellir pennu cyfnod hirach. Gelir ymestyn unrhyw oedi, neu ei ymestyn ymhellach, gan y crwner ar dderbyn cais gan y CPS.

Os nad yw'r CPS wedi eu cynnwys eto, neu os yw uchafiaeth wedi ei basio i awdurdod gorfodi arall, dylai'r heddlu neu awdurdod gorfodi arall ystyried gofyn i Grwner EM ohirio ymchwiliad y crwner ac oedi unrhyw gwest. Gall y crwner ohirio ymchwiliad y crwner os yw'n pennu fod hyn yn briodol. Wrth ystyried cais am ohirio, dylai'r crwner ystyried unrhyw Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a wnaed rhwng yr awdurdod gorfodi perthnasol a Chymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr.

I gynorthwyo Crwner EM i bennu cyfnod oedi addas, dylai'r heddlu, y CPS (os wedi eu cynnwys) ac awdurdod gorfodi arall ddarparu'r crwner gyda:

- (i) diweddariad ar gynnydd yr ymchwiliad; a
- (ii) ble fo'n berthnasol, yr amserlenni a ragwelir ar gyfer amrywiol gamau'r achosion troseddol.

Efallai y bydd y crwner eisiau cael diweddariad am gynnydd ymchwiliadau mewn Adolygiad Cyn Cwest (PIR).

Erlyniadau

Ble mae erlyniad ar gyfer trosedd dynladdiad, neu drosedd gysylltiedig, wedi cychwyn, dylai'r CPS neu awdurdod erlyn arall⁽²⁾ ystyried gwneud cais i'r crwner i oedi ei ymchwiliad. Ar dderbyn cais o'r fath, rhaid i'r crwner ohirio ymchwiliad y crwner ac oedi'r cwest, os yw:

1 Trosedd dynladdiad yn golygu –

- (a) llofruddiaeth, dynladdiad, dynladdiad corfforaethol neu fabanladdiad;
- (b) trosedd dan unrhyw un o ddarpariaethau canlynol y Ddeddf Traffig Ffordd 1988 (c. 52)—
 - (i) adran 1 (achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus);
 - (ii) adran 2B (achosi marwolaeth trwy yrru esgeulus neu anystyriol);
 - (iii) adran 3ZB (achosi marwolaeth trwy yrru: gyrwyr heb drwydded, gwaharddedig neu heb yswiriant);
 - (iv) adran 3A (achosi marwolaeth trwy yrru diofal tra bo dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau);
- (c) trosedd dan adran 2(1) Deddf Hunanladdiad 1961 (c. 60) (annog neu gynorthwyo hunanladdiad);
- (d) trosedd dan adran 5 y Ddeddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004 (c. 28) (achosi neu ganiatáu marwolaeth plentyn neu oedolyn bregus);

2 Golyga "Awdurdod erlyn" —

- (a) Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, neu
- (b) unigolyn o ddisgrifiad a ragnodir gan orchymyn a wnaed gan yr Arglwydd Ganghellor

- (i) mae rhywun wedi ymddangos neu gael ei ddwyn gerbron ynad, neu wedi ei gyhuddo ar ddiad o drosedd lladdiad yn ymwneud â marwolaeth.
- (ii) mae awdurdod erlyn yn hysbysu'r crwner bod rhywun wedi ymddangos neu gael ei ddwyn gerbron ynad, neu wedi ei gyhuddo ar ddiad o drosedd gysylltiedig.

Ble cynigir erlyniad ar gyfer trosedd nad yw'n gysylltiedig â lladdiad gan awdurdod gorfodi (nad yw'n awdurdod erlyn fel y diffinnir gan a48 y Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009), gall y crwner, os yw'n derbyn cais, ohirio'r ymchwiliad ac oedi unrhyw gwest nes bydd yr erlyniad wedi ei gwblhau.

Pan fydd awdurdod gorfodi yn cynnig erlyniad parthed troseddau iechyd a diogelwch cyn y cwest, dylid ymgynghori â'r crwner, ynghyd â'r heddlu, CPS a theulu'r ymadawedig ac unrhyw berson arall gyda diddordeb cyfreithlon yn unol â'r Canllaw ar amseru achosion troseddol mewn achos marwolaeth yn gysylltiedig â gwaith. Wrth ofyn am ohirio ymchwiliad crwner, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol gyfeirio at unrhyw Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth perthnasol gyda Chymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr.

DATGELIAD

Rhannu Dogfennau ac/neu Adroddiadau a gyflwynwyd i'r crwner gan yr heddlu/CPS ac awdurdodau gorfodi eraill

Fel y disgrifir yn rhannau 3 a 5 y canllaw hwn, dylid rhannu deunydd perthnasol rhwng awdurdodau gorfodi sy'n rhan o'r ymchwiliad ar y cyd. Ble mae gan yr heddlu flaenoriaeth ar gyfer ymchwiliad, dylai awdurdodau gorfodi eraill basio copïau o unrhyw ddogfennau ac/neu adroddiadau a gyflwynwyd i'r crwner i'r heddlu a'r CPS, os ydynt wedi eu cynnwys.

Felly hefyd, ble mae uchafiaeth wedi ei basio i awdurdod gorfodi arall, dylid pasio copïau o'r holl ddogfennau ac/neu adroddiadau a gyflwynwyd i'r crwner gan yr heddlu i'r awdurdod hwnnw. Ym mhob achos, ni ddylid datgelu dogfennau ac adroddiadau i unrhyw barti heb gydsyniad yr awdurdod a'u cyflwynodd yn wreiddiol i'r crwner.

Mae Atodlen 5 y Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yn rhoi pŵer i'r crwner wysio tystion a gorfodi cynhyrchu tystiolaeth i ddibenion ymchwiliad neu gwest trwy hysbysiad ysgrifenedig. Rhagwelir y bydd crwneriaid yn defnyddio'r grymoedd hyn pan fo angen yn unig ac os yw dulliau eraill wedi methu. Felly dylid trafod y mater o ddatgelu deunydd gyda'r crwner, a dylid datgelu deunydd sy'n berthnasol i ymchwiliad y crwner. Wrth ystyried pa ddeunydd sy'n berthnasol, dylai'r heddlu, y CPS a'r awdurdodau gorfodi ystyried y materion i'w pennu gan ymchwiliad y crwner fel sy'n ofynnol dan adran 5 y Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

Datgelu dogfennau ac Adroddiadau gan y Crwner i Bartïon â Buddiant

Dan Reol 13 Rheolau'r Crwneriaid (Cwestau) 2013, rhaid i grwneriaid sy'n amodol i reol 15, ar gais i ddatgelu dogfen gan unrhyw berson â buddiant, ddarparu'r ddogfen, neu gopi o'r ddogfen, neu ddarparu'r ddogfen i'w harchwilio cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Mae dogfennau y mae rheol 13 yn berthnasol iddi yn cynnwys:

- (i) unrhyw adroddiad post mortem;
- (ii) unrhyw adroddiad arall a ddarparwyd i'r crwner yn ystod yr ymchwiliad; ac
- (iii) unrhyw ddogfen arall y mae'r crwneriaid yn ystyried i fod yn berthnasol i'r cwest.

Dan Reol 15 rheolau'r Crwneriaid (Cwestau) 2013, gall crwner wrthod darparu dogfen neu gopi o'r ddogfen honno os yw'r ddogfen yn ymwneud ag achosion troseddol dan ystyriaeth neu sydd wedi cychwyn, neu os nad yw'n berthnasol i ymchwiliad y crwner (h.y. rhywbeth nad yw'r crwner yn bwriadu dibynnu arno mewn cwest). Mae Rheol 15 hefyd yn caniatáu i grwner wrthod darparu dogfen, neu gopi o'r ddogfen honno, os oes gwaharddiad statudol neu gyfreithiol ar ddatgelu; os na ellir cael cydsyniad unrhyw awdur neu berchennog hawlfraint yn rhesymol; ac os yw'r cais yn afresymol.

Os yw dogfennau a ddarparwyd i Grwner yn ymwneud ag achosion troseddol dan ystyriaeth ac y credir y byddai datgeliad ymlaen i bersonau â buddiant yn niweidio'r ymchwiliad troseddol neu achosion troseddol yn y dyfodol, dylai'r awdurdod gorfodi dynnu sylw'r crwner at ei bwerau i ymatal/gwrthod datgeliad dan Reol 15 uchod. Dylai unrhyw gais i'r crwner i ymatal/gwrthod datgelu dogfennau gynnwys rhesymau pam y gallai datgelu ymlaen i bartïon â buddiant niweidio unrhyw erlyniad yn y dyfodol.

Ble nad yw deunydd a allai fod yn niweidiol wedi ei ddatgelu, mae'r crwner yn dal i allu ei ddefnyddio i hysbysu ymchwiliad y crwner. Er enghraifft, gallai'r deunydd gynorthwyo'r Crwner i nodi cwmpas y cwest, y materion y gofynnir i bob tyst roi sylw iddynt, a'r potensial i dystion argyhuddo eu hunain.

Wrth ystyried a allai datgelu deunydd niweidio ymchwiliad cyfredol ar erlyniad arfaethedig, dylai'r heddlu a'r CPS ac/neu awdurdod gorfodi perthnasol ystyried y canlynol:

- (i) Ble nad yw datganiad tyst wedi ei ddatgelu, bydd y crwner yn dal i allu galw'r unigolyn hwnnw fel tyst ac mae'n debygol y bydd yr un dystiolaeth yn cael ei chlywed yn gyhoeddus yn y cwest.
- (ii) Ar sefydlu achos cyfreithiol, mae'n debygol y bydd y dystiolaeth graidd yn cael ei datgelu i'r diffynnydd yn gynnar yn rhan o ddarparu'r manylion cychwynnol.
- (iii) Os na chymerwyd datganiad gan dyst pwysig eto, neu os yw sawl a amheuir wedi ei gyfweld dan rybudd, ac os gallai rhyddhau deunydd cyn hyn fod yn niweidiol, gall y crwner gytuno i beidio datgelu unrhyw ddeunydd niweidiol i bartïon â buddiant cyn bod y cyfweliad wedi digwydd.
- (iv) Gallai datgelu datganiad tyst i bartïon â buddiant arwain at risg o ddychrynu, aflonyddu neu ymosod ar y tyst.
- (v) P'un a yw deunydd yn amodol i fraint gyfreithiol h.y. cyfathrebiadau cyfrinachol a wneir i'r diben o geisio, caffael neu roi cyngor cyfreithiol. Gallai hyn gynnwys adroddiadau neu adroddiadau drafft a baratowyd i'r diben o gefnogi erlyniad, yn ogystal ag unrhyw adroddiadau neu ddogfennau mewnol a gynhyrchwyd gan yr heddlu a CPS neu awdurdod gorfodi.

11 Cydgysylltu Cenedlaethol

Mae'r Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol yn gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd y protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith, yn cynnwys adolygu a gwneud unrhyw newidiadau iddo, ac unrhyw ganllaw cysylltiedig e.e. y Canllaw Ymarferol neu Ddogfen Drosoglwyddo. Mae'r pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad llofnodol ac mae'n cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Rôl yr NLC yw goruchwyllo'r protocol ac nid cynnydd achosion unigol. Fodd bynnag, mewn achosion ble ceir problemau cydgysylltu sy'n rhwystro ymchwiliad, gellir dyrchafu materion i'r NLC er mwyn i'r cynrychiolwyr perthnasol ddelio ag unrhyw faterion ar lefel uwch gyda'u sefydliadau eu hunain.

12 Cydgysylltu Lleol

Mae yna wyth Pwyllgor Cydgysylltu Rhanbarthol:

- (i) Llundain;
- (ii) De Ddwyrain Lloegr;
- (iii) De Orllewin Lloegr;
- (iv) Dwyrain Canolbarth Lloegr;
- (v) Gorllewin Canolbarth Lloegr;
- (vi) Swydd Efrog a Gogledd Ddwyrain Lloegr;
- (vii) Gogledd Orllewin Lloegr; a
- (viii) Cymru.

Mae'r pwyllgorau'n cwrdd yn rheolaidd i drafod materion o ddiddordeb a phryder cyffredin ac, yn benodol, gweithrediad y protocol o safbwynt lleol, i fonitro effeithiolrwydd y protocol, ac i gyfathrebu unrhyw broblemau i'r Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol.

Dylid codi unrhyw faterion parthed gweithrediad y protocol, ar wahân i faterion allai fod yn ddifrifol, yn gyntaf ar lefel RLC mewn ymgais i ddelio ag unrhyw faterion ar lefel leol trwy'r llinellau cyfathrebu a nodir ac effeithiol rhwng y sefydliadau llofnodol. Os nad yw'r ymdrechion i ddatrys unrhyw faterion ar lefel RLC yn profi i fod yn llwyddiannus, dylid dyrchafu'r mater i lefel NLC gan gynrychiolwyr y sefydliad llofnodol perthnasol.

ATODIADAU - Rhestrau Gwirio

Atodiad 1:

Dyletswyddau'r swyddog cyntaf

Dyletswyddau atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Nwy Domestig

Dyletswyddau atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Marwolaeth Ffordd

Dyletswyddau atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Rheilffordd

Dyletswyddau atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Morol

Atodiad 2: Dyletswyddau swyddog goruchwyliol yr heddlu

Dyletswyddau atodol swyddog goruchwyliol yr heddlu –
Digwyddiadau Rheilffordd

Dyletswyddau atodol swyddog goruchwyliol yr heddlu – Digwyddiadau Tân

Atodiad 3: Dyletswyddau'r uwch swyddog ymchwilio (SIO)

Mae'r rhestri gwirio wedi eu cyflwyno mewn trefn 'blwch ticio' dilyniannol ac wedi eu rhifo. Mae gan bob gweithred a rifir hyd at dri 'blwch ticio'. Mae pob un o'r 'blychau ticio' hyn yn eistedd o fewn colofn. Teitl y golofn gyntaf yw **Wedi gwneud**. Teitl yr ail golofn yw Adolygiad a theitl y drydedd golofn yw **Heddlu yn Unig**.

Mae'r system wedi'i dylunio i fod yn syml ond effeithiol. Ar bob cam mae disgwyl i'r defnyddiwr ystyried pob gweithred yn ei dro. Pan fydd y weithred honno wedi ei chwblhau, bydd y 'blwch ticio' **Wedi gwneud** priodol yn cael ei dicio. Yna bydd y defnyddiwr yn symud ymlaen i'r weithred nesaf.

Mae'r 'blwch ticio' **Adolygiad** yn caniatáu i'r defnyddiwr nodi pryd fydd gweithred wedi ei hystyried ond heb ei chwblhau, gan adael y weithred yn amodol i adolygiad hwyrach. Mae'r 'blychau ticio' **Wedi gwneud** ac **Adolygiad** yn bresennol bob tro ac mae disgwyl i bob defnyddiwr – waeth i ba sefydliad rhiant mae'n perthyn, dicio un o'r ddau 'blwch ticio' yma.

Mae'r trydydd 'blwch ticio' yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond yr heddlu all gyflawni rhai gweithredoedd ac mae ei ddefnyddio yn cadarnhau fod gweithredu yn un i'r heddlu roi sylw iddi, er wedi ymgynghori gyda phartïon eraill. Mae'r blychau **Heddlu yn Unig** wedi eu cysgodi ac nid oes angen eu ticio.

Yr unig amrywiad ar yr uchod yw o fewn meysydd gofynnol Adolygiad ar y Cyd ac Adolygiad Critigol. Yn y meysydd hyn, dim ond y 'blwch ticio' **Wedi gwneud** fydd ar gael. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cyflawni'r broses gwneud penderfyniad a gwneud dynodiad clir yn y 'blwch ticio' **Wedi gwneud** o ran pa opsiwn a ddetholwyd.

ATODIAD 1: DYLETSSWYDDAU'R SWYDDOG CYNTAF

Dyletswyddau'r swyddog cyntaf – Pob Digwyddiad

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nodi'r safle(oedd).
2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cyflawni asesiad risg cychwynnol. (Sicrhau fod yr ardal yn ddiogel).
3	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Pennu lleoliad marwolaeth. Bydd angen i'r Heddlu drin y corff fel lleoliad ar wahân os yw'n cael ei symud.
4	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Hysbysu'r Swyddog yr Heddlu Goruchwyliol.
5	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Hysbysu'r Crwner.
6	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Gosod a diogelu ffiniau'r lleoliad(au).
7	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cychwyn cofnod ysgrifenedig.
8	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Gofyn am bresenoldeb CSI.
9	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Sefydlu pwy a ddatganodd y farwolaeth.
10	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nodi'r tystion.
11	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Gofyn a oes cyflogwr (neu berson cyfrifol arall) wedi cysylltu â'r Heddlu neu awdurdod gorfodi perthnasol.
12	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Yng Nghymru a Lloegr, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn gyfrifol am orfodi'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (y Gorchymyn) mewn pob math o eiddo, ac eithrio anheddau preifat (ond yn cynnwys eiddo sy'n ddeiliadaeth luosog). Os nad yw'r eiddo yn annedd preifat sengl, yna cysylltwch â'r Gwasanaeth Tân ac Achub lleol, a fydd yn cadarnhau ai nhw yw'r awdurdod gorfodi cywir yn unol ag Erthygl 25 y Gorchymyn.

Dyletswyddau Atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Nwy Domestig

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
13	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Pa nwyddau nwy oedd wedi eu cynnau pan ddaethpwyd o hyd i'r dioddefwr neu ddioddefwyr?
14	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Os gwelwyd, a oedd y fflamau nwy yn felyn (mae llogwr nwy wedi ei addasu'n gywir yn creu fflam las, weithiau gyda chanol melyn)?
15	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	A oedd yna unrhyw awyriad (ffnestri, drysau ac ati ar agor) i'r ystafell ble daethpwyd o hyd i'r dioddefwr neu ddioddefwyr?
16	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	A oes unrhyw staeniau parddu arwyddocaol uwchben neu o amgylch unrhyw offer nwy yn yr eiddo?
17	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	A wnaeth unrhyw un o bersonél y gwasanaeth achub ddioddef salwch (fel arfer cur pen, cyfog) tra yn yr eiddo?
18	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	A oes yna bobl yn yr eiddo o hyd (a allai fod dan risg os defnyddir yr offer nwy eto)?
19	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	A yw'r eiddo wedi ei rentu?
20	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Pryd a gan bwy gafodd yr offer eu hardystio?
21	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Rhowch wybod i'r Gwasanaeth Argyfwng Nwy Cenedlaethol (0800 111 999).

Dyletswyddau Atodol y swyddog cyntaf -

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
				<p>Mae cyfraith traffig ffordd wedi ei orfodi gan yr Heddlu ac eraill, yn cynnwys Awdurdodau'r Priffyrdd a Chomisiynwyr Traffig. Gan amlaf bydd yr heddlu yn arwain mewn ymchwiliad o ddamweiniau traffig ffordd (RTIs) ar ffyrdd cyhoeddus. Bydd yr ymchwiliad 'ar y ffordd' uniongyrchol yn gyfrifoldeb i'r Heddlu ac fel arfer ni ddylai arolygwyr yr HSE fod â phresenoldeb 'ar y ffordd' mewn RTIs.</p>
22	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mynychu a delio gyda'r digwyddiad yn unol â Pholisi a gweithdrefnau'r Heddlu.
23	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Yn unol â'r Llawlyfr Ymchwilio i Farwolaeth Ffordd RHAID i Swyddog Traffig Goruchwyliol gael ei hysbysu a mynychu.</p> <p>Bydd angen cysylltu â HSE ac efallai y byddant am fynychu'r safle os yw'r farwolaeth ar y ffordd yn ymwneud ag:</p>
24	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Amlygiad i sylwedd peryglus yn cael ei gludo ar y ffordd
25	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Llwytho neu ddadlwytho eitem neu sylwedd (nid teithwyr) ar neu oddi ar gerbyd.
26	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Os yw cerbydau gwaith a gweithwyr (heb fod mewn cerbydau) yn cymryd rhan mewn gweithgaredd gwaith penodol (ar wahân i deithio), e.e. gweithgareddau torri clawdd, adeiladu, dymchwel, addasu, trwsio neu gynnal a chadw ar neu ar hyd ffyrdd cyhoeddus a cherbydau yn gysylltiedig ag eiddo gwaith yn symud allan ond yn agos at yr eiddo gwaith hynny.</p> <p>Bydd angen cysylltu â ORR, BTP ac RAIB ac efallai y byddant am fynychu'r safle os yw'r farwolaeth ar y ffordd yn ymwneud â</p>
27	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Damwain yn gysylltiedig â rheilffordd, tramffordd neu system cludiant tywysedig arall

Dyletswyddau Atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Rheilffordd

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
28	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Sicrhau diogelwch Asiantau ymateb trwy gydgyssylltu agos gyda'r Rheolydd Seilwaith (fel arfer Network Rail) yn unol â'r Cod Ymarfer Digwyddiadau Rheilffordd (Network Rail/ACPO).
29	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Cydgysylltu gyda Swyddog Digwyddiad Rheilffordd (RIO) o'r Rheolydd Seilwaith (fel arfer Network Rail).
30	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Cynghori a gofyn am bresenoldeb Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP), ORR ac RAIB.
31	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Gwarchod yr holl offer oedd yn rhan o'r digwyddiad yn cynnwys stoc cerbydau.
32	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ystyried prawf anadl sgrinio ar yr holl weithwyr perthnasol – ymgynghori gyda BTP dros y ffôn os oes angen.
33	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ymgynghori gyda BTP, ORR ac RAIB parthed gwarchod tystiolaeth oddi ar y safle (blychau signal, ac ati).
34	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ystyried diogelu'r holl waith papur ar y safle yn cynnwys briffio diogelwch ac ati.

Dyletswyddau Atodol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Morol

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
35	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Hysbysu/gofyn am bresenoldeb MCA (Swyddog Gorfodi Dyletswydd a Syrffwr Dyletswydd).
36	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Gwirio cenedligrwydd llong, ac os nad yw o'r Deyrnas Unedig, a oedd y digwyddiad o fewn 12 milltir i'r arfordir?
37	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Os yw'r llong yn dal ar y môr, gwirio porthladd cyrchfan ac amserau cyrraedd a gadael.
38				Cydgysylltu gyda Swyddog Gorfodi/Syrffwr yr MCA i:
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ofyn am ganllaw ar ddogfennau i'w copio/dal.
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Profion anadl fel fo'n briodol.
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Os ar gael, sicrhau'r Cofnodwr Data Taith (VDR).

ATODIAD 2: DYLETSSWYDDAU SWYDDOG GORUCHWYLIOL YR HEDDLU

Dyletswyddau swyddog goruchwylol yr heddlu

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
				<p>Parthed damweiniau traffig ffordd yn cynnwys marwolaeth (ar wahân i'r rhai a gynhwysir ym mlychau 25-28), bydd y Swyddogion Traffig Goruchwylol yn mynychu'r safle ac yn delio gyda'r digwyddiad yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau'r Heddlu ac yn unol â'r Llawlyfr Ymchwilio i Farwolaeth Ffordd. Mewn achosion o'r fath, nid oes angen i Swyddogion Traffig Goruchwylol barhau gyda'r canllaw hwn tu hwnt i'r pwynt yma, ond dylid sicrhau cydgysylltu a chydweithrediad parhaus gyda'r holl bartïon dan sylw.</p> <p>Mewn achosion ble mae blychau 25-28 yn berthnasol mae disgwyl i'r Swyddog Traffig Goruchwylol gyflawni'r broses Adolygiad ar y Cyd. (Blwch 54 a 55 isod).</p>
39	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Adolygu asesiad risg. (Sicrhau bod yr ardal yn ddiogel)
40	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Adolygu ffiniau'r safle.
41	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Sicrhau y cwblheir holl ddyletswyddau'r Swyddog Cyntaf.
42	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nodi a hysbysu'r Swyddog Ymchwilio os nad yw eisoes yn bresennol
43	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Briffio swyddogion/gardiau ar y safle.
44	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Dod â Cherbyd Rheoli'r Heddlu i'r safle os oes angen.
45	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nodi'r holl gamerâu Teledu Cylch Cyfyng/Fideos ar yr eiddo neu'n gyfagos a sicrhau unrhyw recordiadau perthnasol.
46	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Sicrhau bod yr Uned Gomand Sylfaenol (BCU) leol yn ymwybodol o'r digwyddiad.

Ac yn achos Damweiniau Rheilffordd

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
47	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Cydgysylltu gyda Swyddog Digwyddiadau Rheilffyrdd ac adolygu trefniadau diogelwch.
48	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Cydgysylltu gyda BTP a chytuno ar drosglwyddiad Heddlu fel bod angen.
49	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Sicrhau bod ORR, RAIB wedi eu hysbysu

Ac yn achos Damwain Tân

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
50	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Sicrhau y sefydlwyd achos y tân; cydgysylltu rhwng ymchwilyr y Gwasanaeth Tân ac Achub; efallai y bydd angen swyddogion lleoliad trosedd a gwyddonwyr fforensig.
51	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Sicrhau y sefydlir y safon o ddarpariaethau diogelwch tân i gyflawni cydymffurfiad gyda'r Gorchymyn Diogelwch Tân a'i ddogfennu.
52	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Sicrhau y cesglir tystiolaeth berthnasol gan griwiau brwydro tân oedd yn bresennol, datganiadau, deunydd fideo ac ati.

Ac yn achos damwain yn ymwneud â Dyfais Feddygol

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
53	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Defnyddir dyfais feddygol i drin cleifion, i roi diagnosis o glefyd neu i liniaru anableddau corfforol. Rhaid i bob dyfais feddygol gynnwys nod CE priodol cyn eu rhoi ar y farchnad yn y Deyrnas Unedig yn unol ag anableddau ledled Ewrop. Fel arfer fe ystyrir cynnyrch sydd â gweithred ffarmacolegol i fod yn feddyginiaeth ac, felly, fe'i trwyddedir trwy wahanol broses reoleiddio. Ystyried hysbysu'r MHRA os yw dyfais feddygol yn ymhlwg mewn marwolaeth sydd dan ymchwiliad.

Adolygiad ar y cyd (gofynnol)

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
54	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Cysylltu â'r Awdurdod Gorfodi perthnasol a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddamwain a pha gamau gymerwyd hyd yn hyn, a chytuno ar pa gamau i'w cymryd nawr a gan bwy. Cydnabod nad yw'r Awdurdod Gorfodi perthnasol yn wasanaeth brys. Mewn rhai achosion, ni fydd yn bosibl iddynt fynychu'r safle i drafod yr achos. Os na allant fod yn bresennol, dylid cynnal Adolygiad ar Cyd dros y ffôn.
55	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ystyried effaith cau'r rheilffyrdd ar Seilwaith Cenedlaethol.

ATODIAD 3: Dyletswyddau'r uwch swyddog ymchwilio (SIO)

Dyletswyddau'r uwch swyddog ymchwilio (SIO)

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
56	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mynychu'r safle
57	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Adolygu asesiad risg
58	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Cychwyn cofnod polisi
59	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Adolygu'r safle(oedd).

Cyfeirir at y prif benderfynnydd mewn ymchwiliad mawr fel yr Uwch Swyddog Ymchwilio (SIO). Fel arfer bydd yn Dditectif Arolygydd neu uwch. Mewn achosion o RTI gyda marwolaeth, bydd yn swyddog traffig wedi ei hyfforddi'n briodol.

Adolygiad critigol (gofynnol)

Bwriad yr Adolygiad Critigol yw i sefydlu'r mater o uchafiaeth. Dylai'r Awdurdod Gorfodi perthnasol fod yn bresennol. Efallai y bydd angen mwy nag un Adolygiad Critigol wrth i'r ymchwiliad symud yn ei flaen.

Sefydlu'r mater o uchafiaeth

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
60				Yn unol ag egwyddorion sylfaenol y protocol Marwolaeth gysylltiedig â gwaith, fel arfer fe gynhelir Ymchwiliad ar y Cyd
				<i>Opsiynau:</i>
				Ymchwiliad cyfredol gydag:
	<input type="checkbox"/>			
				Uchafiaeth yr Heddlu
	<input type="checkbox"/>			
				Awdurdod Gorfodi perthnasol yn cymryd uchafiaeth
				NEU
	<input type="checkbox"/>			Heddlu'n tynnu allan – Awdurdod Gorfodi perthnasol yn cymryd uchafiaeth

Rhyddhau / gwarchod y safle

61

Wedi

Adolygu

Heddlu iyn unig

Cydnabyddir nad yw'r Awdurdod Gorfodi perthnasol yn Wasanaeth Brys. Mewn rhai achosion, ni fydd yn bosibl iddynt fynychu'r safle i drafod yr achos. Fodd bynnag, bydd angen i Swyddog Ymchwilio ddelio â'r mater o warchod y safle. Os nad yw'n bresennol, dylid cynnal y drafodaeth dros y ffôn.

Opsiynau:

Gwarchod y safle gyda gard heddlu priodol.

Gwarchod y safle dan sêl heb gard heddlu.

Rhyddhau'r safle.

AC

Os oes presenoldeb – trosglwyddo'r safle iddynt.

Mewn achos o drosglwyddo'r ymchwiliad a'r safle i'r Awdurdod Gorfodi perthnasol a'r Heddlu'n tynnu'n ôl o'r mater, dylid sefydlu trefniadau i sicrhau cydgysylltu a chydweithredu parhaus rhwng y partion.

Os bydd hyn yn wir, bydd yr Awdurdod Gorfodi perthnasol yn cynnal ei ymchwiliad yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfredol yr awdurdodau perthnasol. Ni fyddai angen parhau gyda'r canllaw hwn tu hwnt i'r pwynt yma, ond dylid sicrhau cydgysylltu a chydweithrediad parhaus gyda'r holl bartion dan sylw.

Os ceir Ymchwiliad ar y Cyd ble mae'r Heddlu yn uchafu, bydd disgwyl i'r SIO gynnal yr ymchwiliad o fewn y canllaw a ddarperir gan y Llawlyfr Ymchwilio i Lofruddiaeth (MIM) yn unol â'r Arfer Gorau a sefydlir yng Ngweithdrefn Weinyddol Safonol yr Ystafell Digwyddiad Mawr (MIRSAP) a ble fo'n briodol y Llawlyfr Ymchwilio i Farwolaeth Ffordd (RDIM).







ATODIAD 4: Ystyriaethau arbennig

Ystyriaethau arbennig

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
62	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Er mwyn cyflawni Ymchwiliad ar y Cyd effeithiol, dylid ystyried y canlynol rhwng y partion a dylai fod yn destun cofnod polisi'r SIO. Strwythur Rheoli Ymchwiliad – Cynnwys yr Heddlu, HSE/ awdurdod lleol / ORR neu Awdurdod Ymchwilio neu Orfodi arall i sicrhau y cynrychiolir yr holl fuddiannau.
63	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Polisi Cyfryngau ar y Cyd – Sicrhau rheolaeth cyfryngau effeithiol trwy strategaeth a gytunir yn unol â'r cofnod polisi.
64	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Strategaeth Fforensig – Ystyried yr ystod ehangach o wasanaethau neu arbenigedd technegol sydd ar gael i'r Heddlu, HSE / awdurdod lleol / ORR neu Awdurdod Ymchwilio neu Orfodi arall yn gweithredu mewn cydweithrediad.
65	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Rheoli Tystiolaeth – Cytuno ar drefniadau i rannu tystiolaeth rhwng partion ymchwilio ac i gadw a datgelu deunydd.
66	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Penderfynu ar Linellau Ymholiad - I sicrhau bod yr ymchwiliad yn rhoi sylw i anghenion yr holl asiantaethau cysylltiedig â'r Ymchwiliad ar y Cyd.
67	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Rheolaeth Ariannol – Sicrhau y gwneir darpariaeth gyllidebol ddigonol gan y partion yn yr ymchwiliad.
68	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Pwerau – Mae amrywiol bwerau ymchwilio ar gael i asiantaethau cyfrannog. Mae angen gwneud penderfyniad o ran defnyddio pwerau o'r fath a'u cofnodi yn y cofnod polisi.
69	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Strategaeth Cyfweiliadau – Bydd angen i'r strategaeth cyfweiliadau ddelio â dau faes penodol, sef tystion a rhai a amheuir. Dim ond cyfwelwyr wedi eu hyfforddi'n briodol ddylai gyflawni cyfweiliadau gyda'r rhai a ddiffinnir fel tystion a rhai amheuir Arwyddocaol a Bregus. Argymhellir penodi Rheolwr Cyfweiliad Tactegol. Wrth sefydlu strategaeth cyfweiliadau, disgwylir cynnwys yr holl bartion perthnasol wrth ei baratoi a, ble fo'n briodol, ei weithredu mewn ffordd sy'n bodloni anghenion yr holl sefydliadau ymchwilio.
70	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Swyddog Cyswllt â Theuluoedd – Mae'n bwysig i'r partion gydgyssylltu a chytuno ar drefniadau i roi diweddariadau i'r rhai mewn profedigaeth parthed cynnydd yr ymchwiliad a materion iechyd a diogelwch eraill allai fod yn berthnasol, e.e. camau i'w cymryd i atal digwyddiad tebyg rhag digwydd.

ATODIAD 5: Ble mae gan yr heddlu uchafiaeth

Ble mae gan yr Heddlu uchafiaeth

	Wedi	Adolygu	Heddlu yn unig	
71				Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) – Yn gynnar yn yr ymchwiliad ac yn rheolaidd wedi hynny, bydd angen ymgynghori gyda'r CPS. Y mater allweddol i'r Heddlu fydd o ran digonolrwydd tystiolaeth parthed ymchwilio i droseddau difrifol. Dylid cynnwys yr Awdurdod Gorfodi perthnasol yn y broses honno i sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl ddeddfwriaeth gysylltiedig perthnasol.
72				Cyngor y CPS – Ar sail cyngor gan y CPS, gall yr ymchwiliad symud tuag at erlyniad ar gyfer Dynladdiad a/neu Ddynladdiad Corfforaethol. Yn yr achos hwn, dylai Cydweithrediad barhau i'r fath raddau ag yr ystyrir i fod yn angenrheidiol.

Wrth benderfynu os yw erlyniad yn briodol, bydd y CPS yn ystyried yr achos yn nghyd-destun 'Y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron'. Os penderfynir peidio dwyn achos am Dramgwyddau Troseddol Difrifol (ar wahân i droseddau Iechyd a Diogelwch) yna fel arfer byddai'r Heddlu'n ildio uchafiaeth ac yn tynnu allan o'r ymchwiliad, neu'n parhau'n rhan o'r ymchwiliad ar y cyd parhaus ble mae gan yr Awdurdod Gorfodi perthnasol uchafiaeth.

Byddai angen sefydlu trefniadau i sicrhau bod trosglwyddiad yr achos i'r Awdurdod Gorfodi wedi ei gyflawni'n hwylus gan gynnal parhad a chywirdeb yr arddangosiadau, tystiolaeth a deunydd na ddefnyddiwyd.

Ni waeth pa asiantaeth sydd ag uchafiaeth o'r Ymchwiliad neu Erlyniad, fe eiriolir o blaid cydgysylltu parhaus hyd at y pwynt pan gynhelir treial neu gwest.

Mae'r ddogfen hon ar gael o: [www.hse.gov.uk/pubns/wrdpl\(rev\).pdf](http://www.hse.gov.uk/pubns/wrdpl(rev).pdf)

© *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/information-management/our-services/crown-copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 09/11

Cyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol ar gyfer y Protocol marwolaethau cysylltiedig â gwaith (Cymru a Lloegr) WRDP1W(rev) 01/16